

DRAFFT FODEL i'w ystyried gan y Cyngor

CYNGOR CYMUNED _____ **LLANWINIO**

MODEL REOLIADAU ARIANNOL

Mabwysiadwyd y Rheoliadau Ariannol hyn gan y Cyngor yn ei Gyfarfod a gynhaliwyd ar Tachwedd 19 2013

1. CYFFREDINOL

- 1.1 Mae'r rheoliadau ariannol yn rheoli rheolaeth ariannol y Cyngor a'r Cyngor yn unig all eu newid neu eu diwygio trwy benderfyniad. Mae'r cyngor yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am sicrhau bod ei rheolaeth ariannol yn ddigonol ac effeithiol a bod gan y cyngor system gadarn o reolaeth ariannol sy'n cynorthwyo'r cyngor i gyflawni ei wasanaethau yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheolaeth risg ac atal a darganfod twyll a llygredd. Pwrpas y rheoliadau ariannol yw dangos sut mae'r cyngor yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.
- 1.2 Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) yn swydd statudol ac fe'i penodir gan y cyngor. [Penodwyd y Clerc yn SAC ar gyfer y cyngor hwn a bydd y rheoliadau hyn yn berthnasol yn hynny o beth.] Bydd y SAC, yn gweithredu o dan arweiniad polisi y Cyngor, yn gweinyddu materion ariannol y Cyngor yn unol ag arferion priodol. Bydd y SAC yn penderfynu ar ran y cyngor ei gofnodion cyfrifo, a'i systemau rheolaeth gyfrifyddol. Bydd y SAC yn gofalu y cedwir at y systemau rheolaeth gyfrifyddol ac y cedwir cofnodion cyfrifo'r cyngor a'u bod yn cael eu cadw'n gyfredol yn unol ag arferion priodol.
- 1.3 Bydd y SAC yn cynhyrchu gwybodaeth rheolaeth ariannol yn ôl gofyn y cyngor.
- 1.4 O leiaf unwaith y flwyddyn, cyn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol, bydd y cyngor yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol a fydd yn unol ag arferion priodol.
- 1.5 Yn y rheoliadau ariannol hyn, bydd cyfeiriadau at Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) yn golygu'r Rheoliadau a gyhoeddwyd trwy adran 39 Deddf Archwiliadau Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac sydd ar waith ar y pryd.
- 1.6 Yn y rheoliadau ariannol hyn bydd y term 'arfer priodol' neu 'arferion priodol'

yn cyfeirio at y canllawiau a gyhoeddwyd yn Governance and Accountability for local Councils in Wales – a Practitioners' Guide a gyhoeddir ar y cyd gan Un Llais Cymru a'r SLCC ac sy'n cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd.

2. AMCANGYFRIFON BLYNYDDOL (CYLLIDEB)

- 2.1 [Bydd pob Pwyllgor (os oes rhai) yn llunio a chyflwyno cynigion i'r Cyngor ar gyfer refeniw a chyfalaf gan gynnwys y defnydd o arian wrth gefn a ffynonellau ariannu ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlyinol, a hynny heb fod yn hwyrach na diwedd mis Tachwedd bob blwyddyn.]
- 2.2 Bydd amcangyfrifon manwl o bob derbyniad a thaliad gan gynnwys y defnydd o arian wrth gefn a phob ffynhonnell ariannu ar gyfer y flwyddyn yn cael eu paratoi bob blwyddyn gan y SAC ar ffurf cyllideb i'w thrafod gan y cyngor.
- 2.3 Bydd y Cyngor yn adolygu'r gyllideb heb fod yn hwyrach na mis Ionawr bob blwyddyn a bydd yn pennu'r Presept ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlyinol. Bydd y SAC yn rhoi manylion y presept i'w awdurdod bilio a bydd yn rhoi copi o'r gyllideb a gymeradwywyd i bob aelod.
- 2.4 Y cyllidebau blynyddol fydd yn ffurfio sylfaen rheolaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 2.5 Bydd y Cyngor yn ystyried yr angen am ac yn rhoi sylw i ragolwg tair blynedd o Dderbyniadau a Thaliadau Refeniw a Chyfalaf y gellir eu paratoi ar yr un pryd â'r Gyllideb flynyddol.

3. RHEOLAETH GYLLIDEBOL

- 3.1 Gellir gwario arian ar eitemau refeniw i fyny at y symiau a gynhwyswyd ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant yn y gyllideb a gymeradwywyd.
- 3.2 Ni cheir gwario unrhyw arian fydd yn fwy na'r swm sydd yn y gyllideb refeniw ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant. Yn ystod y flwyddyn dan sylw a chyda chydsyniad y cyngor ar ôl llawn ystyried y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gellir symud symiau sydd ar gael a heb eu gwario i benawdau cyllideb eraill neu i gronfa wrth gefn benodedig yn ôl y galw.
- 3.3 Bydd y SAC yn darparu'n rheolaidd i'r Cyngor ddatganiad o dderbyniadau a thaliadau hyd hynny o dan holl benawdau'r gyllideb, gan gymharu union wariant hyd at y dyddiad dan sylw gyda'r hyn a fwriadwyd yn y gyllideb. Caiff y datganiadau hyn eu paratoi o leiaf hyd at ddiwedd pob chwarter ariannol.
- 3.4 Gall y Clerc wario arian ar ran y Cyngor sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud unrhyw waith atgyweirio neu waith arall y mae cymaint o frys yn ei gylch fel bod rhaid ei wneud yn syth, boed darpariaeth gyllidebol ar ei gyfer ai peidio, i fyny at uchafswm o [£200]. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Cyngor am y camau a gymerwyd cyn gynted ag y bo modd wedi hynny.
- 3.5 Ni cheir cario arian heb ei wario yn y gyllideb refeniw ymlaen i'r flwyddyn ganlyinol oni bai ei fod yn cael ei roi mewn cronfa wrth gefn benodedig trwy benderfyniad y cyngor.
- 3.6 Ni ellir gwario unrhyw arian ar unrhyw brosiect cyfalaf ac ni ellir cytuno unrhyw gontract na derbyn unrhyw dendr ar gyfer gwariant cyfalaf oni bai fod y Cyngor yn fodlon fod yr arian angenrheidiol ar gael, neu y cafwyd y caniatâd

benthyca angenrheidiol.

- 3.7 Caiff pob gwaith cyfalaf ei weinyddu yn unol â rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol y Cyngor ar gyfer contractau.

4. CYFRIFO AC ARCHWILIO

- 4.1 Bydd holl weithdrefnau cyfrifo a chofnodion ariannol y Cyngor yn cael eu pennu gan y SAC yn unol â Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru).
- 4.2 Bydd y SAC yn llenwi datganiadau ariannol blynyddol y Cyngor, gan gynnwys adroddiad blynyddol y cyngor, cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol wedi diwedd y flwyddyn ariannol a bydd yn eu cyflwyno ac yn rhoi gwybod i'r Cyngor y gwnaed hynny.
- 4.3 Bydd y SAC yn llenwi Cyfrifon y Cyngor sy'n gynwysedig yn yr Adroddiad Blynyddol (fel y'i darperir gan yr Archwilydd a benodir o dro i dro gan Archwilydd Cyffredinol Cymru) a bydd yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'w gadarnhau a'i awdurdodi gan y Cyngor o fewn y cyfnodau amser a nodir yn Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru).
- 4.4 Bydd y SAC yn sicrhau bod system ddigonol ac effeithiol ar gyfer cynnal archwiliadau mewnol o waith cyfrifo, ariannol ac o fathau eraill y Cyngor yn unol ag arferion priodol. Bydd unrhyw un o swyddogion neu aelodau'r Cyngor, ar gais y SAC neu'r Archwilydd Mewnol, yn darparu unrhyw rai o ddogfennau'r Cyngor y mae'r SAC neu'r Archwilydd Mewnol yn credu sy'n angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad mewnol a byddant yn rhoi i'r SAC neu'r Archwilydd Mewnol unrhyw wybodaeth neu esboniad y mae'r SAC neu'r Archwilydd Mewnol yn eu hystyried yn angenrheidiol i'r perwyl hwnnw.
- 4.5 Penodir yr Archwilydd Mewnol gan y cyngor a bydd yn cyflawni'r gwaith y gofynna'r cyngor amdano yn unol ag arferion priodol. Bydd yr Archwilydd Mewnol, a fydd yn gymwys ac yn annibynnol ar y Cyngor, yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig rheolaidd i'r Cyngor, neu'n bersonol, gydag o leiaf un adroddiad ysgrifenedig blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Er mwyn arddangos gwrthrychedd ac annibyniaeth, ni fydd gan yr Archwilydd Mewnol unrhyw fuddiannau croes ac ni fydd ganddo/ganddi unrhyw gysylltiad â gwaith penderfyniadau ariannol a rheolaeth y cyngor.
- 4.6 Bydd y SAC yn gwneud trefniadau ar gyfer y cyfle i archwilio cyfrifon, llyfrau a thalebau ac ar gyfer arddangos neu gyhoeddi unrhyw hysbysiadau a datganiadau cyfrifon sy'n ofynnol trwy Ddeddf Archwiliadau Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru).
- 4.7 Bydd y SAC, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn dwyn i sylw pob cynghorydd unrhyw ohebiaeth neu adroddiadau gan yr Archwilydd Mewnol neu Allanol, oni bai fod yr ohebiaeth yn ymwneud â mater cwbl weinyddol yn unig.

5. TREFNIADAU BANCIO A SIECIAU

- 5.1 Bydd trefniadau bancio'r Cyngor, gan gynnwys y Mandad Banc, yn cael eu gwneud gan y SAC a dylent gael eu cymeradwyo gan y Cyngor. Dylent gael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithlon.

- 5.2 Bydd rhestr o daliadau angenrheidiol, a fydd yn rhan o Agenda'r cyfarfod, yn cael ei pharatoi gan y SAC ac, ynghyd â'r anfonebau angenrheidiol, ar gyfer ei chyflwyno i'r Cyngor. Os yw'r rhestr yn dderbyniol caiff ei hawdurdodi trwy benderfyniad gan y Cyngor a chaiff ei llofnodi gan Gadeirydd y cyfarfod. Os yw'n fwy addas gellir dangos y manylion yng nghofnodion y cyfarfod.
- 5.3 Bydd sieciau yn tynnu o'r cyfrif banc yn unol â'r rhestr y cyfeirir ati ym mharagraff 5.2 neu yn unol â pharagraff 6.4, yn cael eu llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor [a'u cydlofnodi gan y Clerc].
- 5.4 Er mwyn nodi fod y manylion a ddangosir ar y siec neu archeb talu yn cyd-fynd â'r bonyn a'r anfoneb neu waith papur tebyg, bydd y llofnodyddion hefyd yn llofnodi eu llythrennau ar fonyn y siec.

6. TALU CYFRIFON

- 6.1 Gwneir pob taliad trwy siec neu archeb arall yn tynnu ar fancwyr y Cyngor. Dylid gwneud taliadau yn unol â'r trefniadau a gynhwysir yng Nghyllwys Ymarferwyr 2011 'Governance and Accountability for Local Councils in Wales.'
- 6.2 Bydd pob anfoneb am dâl yn cael ei archwilio, ei wirio a'i gadarnhau gan y Clerc. Bydd y Clerc yn bodloni ei hun y cafodd y gwaith, nwyddau neu wasanaethau y cyfeiria'r anfoneb atynt ei dderbyn, ei gyflawni, ei archwilio a'i gadarnhau.
- 6.3 Bydd y SAC yn archwilio anfonebau o ran cywirdeb rhifyddol a bydd yn eu dadansoddi o dan y pennawd gwariant priodol. Bydd y Clerc yn gwneud pob ymdrech i dalu pob anfoneb a gyflwynwyd, ac sy'n dderbyniol, yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.
- 6.4 Os oes angen gwneud taliad er mwyn osgoi talu llog o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, ac os yw'r dyddiad perthnasol cyn cyfarfod nesaf arferol y Cyngor, pan mae'r Clerc a'r SAC yn cadarnhau nad oes unrhyw anghydfod neu reswm arall i oedi taliad, gall y Clerc (er gwaethaf para 6.3) gymryd yr holl gamau angenrheidiol i dalu anfonebau o'r fath ar yr amod y cyflwynir rhestr o daliadau o'r fath i gyfarfod nesaf priodol y Cyngor.
- 6.5 Ni fydd y Cyngor yn cadw unrhyw fath o gronfa arian parod. Rhaid i'r holl arian parod a dderbynnir gael ei fancio fel y mae. Bydd unrhyw daliadau a wneir mewn arian parod gan y SAC (er enghraifft ar gyfer stampiau neu fân nwyddau swyddfa) yn cael eu had-dalu yn rheolaidd, o leiaf yn chwarterol.

fel arall

- [6.5 Gall y SAC ddarparu arian mân i swyddogion er mwyn talu treuliau gwaith ac o fathau eraill. Danfonir talebau ar gyfer taliadau a wnaed at y SAC gyda

chais am ad-daliad:

a) Bydd y SAC yn cadw cronfa arian mân o [£250] ar gyfer mwyn talu treuliau gwaith ac o fathau eraill. Cedwir talebau ar gyfer taliadau a wnaed allan o arian mân er mwyn cadarnhau'r taliad.

b) Ni ddylai incwm a dderbynnir gael ei dalu i'r gronfa arian mân ac mae'n rhaid ei fancio ar wahân, yn ôl trefniadau a nodir mewn rhan arall o'r rheoliadau hyn.

c) Bydd rhaid i daliadau i gynnal y gronfa arian mân gael eu dangos ar wahân ar y rhestr o daliadau a gyflwynir i'r Cyngor o dan 5.2 uchod.

7. TALU CYFLOGAU

7.1 Fel cyflogydd, bydd y cyngor yn gwneud trefniadau i fodloni'n llawn y gofynion statudol a roddir ar bob cyflogydd gan ddeddfwriaeth PAYE ac Yswiriant Gwladol. Caiff cyflogau eu talu yn unol â chofnodion cyflogres a rheolau PAYE ac Yswiriant Gwladol sydd ar waith ar y pryd, a'r cyflogau a gytunwyd gan y Cyngor.

7.2 Gellir talu cyflogau a thalu didyniadau allan o gyflogau ar gyfer treth, yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn yn unol â chofnodion cyflogres ac ar y dyddiadau priodol a nodir mewn contractau cyflogaeth, ar yr amod fod pob taliad yn cael ei adrodd i ac yn cael ei gadarnhau gan gyfarfod nesaf y Cyngor.

8. BENTHYCIADAU A BUDDSODDIADAU

8.1 Caiff pob benthyciad a buddsoddiad eu trafod yn enw'r Cyngor a byddant am gyfnod penodol yn unol â pholisi'r Cyngor.

8.2 Yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, rhaid i bob cyngor lleol baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (trowch at dudalen 47 Canllaw Ymarferwyr 2011 'Governance and Accountability for Local Councils in Wales.' (Tudalen 47).

8.3 Bydd unrhyw arian a fuddsoddir o dan reolaeth y Cyngor yn cael ei wneud yn enw'r Cyngor.

8.4 Gwneir pob benthyciad yn enw'r Cyngor, ar ôl cael unrhyw ganiatâd benthycia angenrheidiol. Caiff unrhyw gais am ganiatâd benthyciad ei gadarnhau gan y Cyngor o ran ei delerau a'i bwrpas. Bydd telerau ac amodau benthyciadau yn cael eu hadolygu o leiaf yn flynyddol.

8.5 Bydd pob tystysgrif buddsoddi a dogfennau eraill yn y cyswllt hwn yn cael eu cadw gan y SAC.

9. INCWM

9.1 Cyfrifoldeb y SAC fydd casglu a goruchwylio'r holl symiau sy'n daladwy i'r Cyngor.

- 9.2 Bydd manylion pob taliad a wneir ar gyfer gwaith a wnaed, gwasanaethau a ddarparwyd neu nwyddau a gyflenwyd yn cael eu cytuno'n flynyddol gan y Cyngor, caiff y SAC wybod amdanynt a bydd y SAC yn gyfrifol am gasglu pob cyfrif sy'n daladwy i'r Cyngor.
- 9.3 Bydd y Cyngor yn adolygu pob ffi a thaliad bob blwyddyn, yn dilyn adroddiad gan y Clerc.
- 9.4 Bydd gwybodaeth am unrhyw symiau y bernir na ellir eu hadennill ac unrhyw ddyledion drwg yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor a byddant yn cael eu dileu yn ystod y flwyddyn.
- 9.5 Bydd pob swm a dderbynnir ar ran y Cyngor yn cael eu bancio fel y maent o dan gyfarwyddyd y SAC. Ym mhob sefyllfa, caiff pob taliad eu cyflwyno i fancwyr y Cyngor ar yr amllder sy'n angenrheidiol ym marn y SAC.
- 9.6 Bydd tarddiad pob derbynneb yn cael ei nodi ar y slip talu i mewn.
- 9.7 Ni chaiff sieciau personol eu talu allan o arian sy'n cael ei ddal ar ran y Cyngor.
- 9.8 Bydd y SAC yn llenwi unrhyw Adroddiad TAW angenrheidiol yn brydlon. Gwneir unrhyw gais am ad-daliad dyladwy yn unol â Deddf TAW 1994 adran 33 o leiaf yn flynyddol i gyd-ddigwydd â diwedd y flwyddyn ariannol.
- 9.9 *Pan mae'r Cyngor yn derbyn symiau sylweddol o arian parod yn rheolaidd, bydd y SAC yn cymryd pa gamau bynnag a gytunir gan y Cyngor er mwyn sicrhau bod mwy nac un person yn bresennol pan gaiff yr arian ei gyfrif am y tro cyntaf, y ceir trefn gysoni gyda rhyw fath o reolaeth fel rhifau tocynnau, ac y cymerir gofal priodol o ran diogelwch unigolion sy'n bancio arian o'r fath.*

10. ARCHEBION AM WAITH, NWYDDAU A GWASANAETHAU

- 10.1 Danfonir archeb neu lythyr swyddogol ar gyfer pob gwaith, nwyddau a gwasanaethau oni bai fod contract ffurfiol yn cael ei baratoi neu pe bai archeb swyddogol yn anaddas. Cedwir copïau o archebion.
- 10.2 Caiff llyfrau archebion eu rheoli gan y SAC.
- 10.3 Mae pob aelod a swyddog yn gyfrifol am gael gwerth am arian ar bob achlysur. Bydd swyddog sy'n gwneud archeb swyddogol yn gofalu i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ac ymarferol y ceir y telerau gorau posib ar gyfer pob trafodiad, fel arfer trwy gael tri dyfynbris neu amcanbris neu ragor oddi wrth gyflenwyr priodol, yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau de minimis yn Rheoliad 11 (I) isod.
- 10.4 *Bydd y SAC yn cadarnhau natur gyfreithlon unrhyw ddarpar bryniant cyn gwneud unrhyw archeb, ac ar gyfer pryniannau neu daliadau newydd neu afreolaidd, bydd y SAC yn gofalu yr adroddir yr awdurdod statudol i'r cyfarfod ble caiff yr archeb ei gadarnhau fel y gall y Cofnodion gofnodi'r awdurdod a ddefnyddir.*

11. CONTRACTAU

11.1 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer contractau fel a ganlyn:

- (a) Bydd pob contract yn cydymffurfio â'r rheoliadau ariannol hyn, ac ni wneir unrhyw eithriadau heblaw am mewn argyfwng ar yr amod na fydd y rheoliadau hyn yn berthnasol i gontractau sy'n ymwneud ag eitemau (i) i (vi) isod:
 - (i) ar gyfer cyflenwi nwy, trydan, dŵr, carthffosiaeth a gwasanaethau ffôn;
 - (ii) ar gyfer gwasanaethau arbenigol o'r math a ddarperir gan gyfreithwyr, cyfrifwyr, syrfewyr ac ymgynghorwyr cynllunio;
 - (iii) ar gyfer gwaith a wneir neu ddeunyddiau a gyflenwir sy'n cynnwys atgyweiriadau i neu rannau ar gyfer peiriannau neu offer;
 - (iv) ar gyfer gwaith a wneir neu ddeunyddiau a gyflenwir sy'n ffurfio estyniad i gontract a wnaed yn barod gan y Cyngor;
 - (v) ar gyfer gwaith archwilio ychwanegol gan yr Archwilydd allanol hyd at werth bras o £250 (os yw'r swm yn fwy na hyn bydd y Clerc a'r SAC yn gweithredu wedi ymgynghori â Chadeirydd neu Is Gadeirydd y Cyngor);
 - (vi) ar gyfer nwyddau neu ddeunyddiau y bwriedir eu prynu sy'n nwyddau perchnogol a/neu os cânt eu gwerthu am bris gosod yn unig.
- (b) Pan fwriedir gwneud contract gwerth mwy na [£50,000] ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu ar gyfer cyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol ac eithrio'r nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodir ym mharagraff (a) bydd y Clerc yn gwahodd tendrau oddi wrth o leiaf dri chwmini i'w cymryd o'r rhestr gymeradwy briodol.
- (c) Pan wneir ceisiadau i ollwng rheoliadau ariannol ar gyfer contractau er mwyn sicrhau y gellir cytuno pris heb gystadleuaeth, bydd y rheswm yn cael ei gynnwys mewn argymhelliad i'r Cyngor.
- (d) Bydd unrhyw wahoddiad o'r fath i dendro yn nodi natur cyffredinol y contract arfaethedig a bydd y Clerc yn trefnu'r cymorth technegol angenrheidiol i baratoi manyleb mewn achosion perthnasol. Bydd y gwahoddiad yn nodi hefyd fod rhaid cyfeirio tendrau at y Clerc trwy'r post arferol. Bydd pob cwmni tendro yn cael amlen wedi'i marcio'n briodol ar gyfer rhoi'r tendr ynnddi wedi'i selio, a bydd yn parhau dan sêl tan y dyddiad a gytunwyd ar gyfer agor tendrau ar gyfer y contract hwnnw.
- (f) Bydd pob tendr wedi'u selio yn cael eu hagor ar yr un pryd ar y dyddiad a nodwyd gan y Clerc ym mhresenoldeb o leiaf un aelod o'r Cyngor.
- (g) Os derbynnir llai na thri thendr ar gyfer contractau dros [£50,000] neu os yw pob tendr yn cynnig yr un pris gall y Cyngor wneud pa drefniant bynnag

y mae'n credu sy'n addas ar gyfer caffael y nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni'r gwaith.

- (h) Bydd unrhyw wahoddiad i dendro o dan y rheoliad hwn yn cynnwys datganiad yn adlewyrchu Rheolau Sefydlog 61, 63 a 64. [*check consistency*]
- (i) Pan fwriedir gwneud contract gwerth llai na [£50,000] ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol ac eithrio'r nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodir ym mharagraff (a) bydd y Clerc neu'r SAC yn trefnu cael 3 dyfynbris (disgrifiadau wedi'u prasio o'r hyn y bwriedir ei gyflenwi); pan mae eu gwerth yn llai na [£1,000] ac yn fwy na [£100] bydd y Clerc neu'r SAC yn ceisio cael 3 amcanbris. Fel arfer, bydd Rheoliad 10 (3) uchod yn berthnasol.
- (j) Ni fydd rhaid i'r Cyngor dderbyn y tendr, dyfynbris neu amcanbris isaf nac o unrhyw fath arall.

12. TALIADAU O DAN GONTRACTAU AR GYFER GWAITH ADEILADU

- 12.1 Caiff y swm yn y contract ei dalu ar gyfrif o fewn y cyfnod a nodir yn y contract gan y SAC wedi derbyn tystysgrifau ardystiedig ar gyfer y pensaer neu ymgynghorwyr eraill a gyflogwyd i oruchwylio'r contract (yn amodol ar unrhyw ganran i'w gadw'n ôl a gytunwyd yn y contract dan sylw).
- 12.2 Pan mae contractau yn darparu ar gyfer talu trwy randaliadau bydd y SAC yn cadw cofnod o bob taliad o'r fath. Mewn unrhyw sefyllfa ble y tybir fod cyfanswm cost gwaith i'w wneud o dan gontract, ac eithrio amrywiadau a gytunwyd, yn 5% neu fwy uwchben swm y contract fe gyflwynir adroddiad i'r Cyngor.
- 12.3 Rhaid i unrhyw amrywiad i gontract neu ychwanegiad neu hepgoriad o gontract gael eu cadarnhau gan y Cyngor a'r Contractwr yn ysgrifenedig, a rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor pan mae'r gost derfynol yn debyg o fod un uwch na'r ddarpariaeth ariannol a wnaed.

13. STORDAI AC OFFER

- 13.1 Bydd y swyddog sy'n gyfrifol am bob adran yn gyfrifol am ofalu am stordai ac offer yn yr adran honno.
- 13.2 Rhaid cael Nodiadau Cyflenwi ar gyfer yr holl nwyddau a dderbyniwyd i'w storio neu a gyflenwyd mewn unrhyw fodd arall ac mae'n rhaid gwirio nwyddau o ran yr archeb a'u hansawdd ar yr adeg y gwneir y cyflenwad.
- 13.3 Cedwir stociau ar y lefelau isaf derbyniol yn gydnaws â gofynion gweithredol.
- 13.4 Bydd y SAC yn gyfrifol am wneud archwiliadau achlysurol o stociau a storfeydd, a hynny o leiaf yn flynyddol.]

14. ASEDAU, ADEILADAU AC YSTADAU

- 14.1 Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau addas ar gyfer storio holl weithredoedd

eiddo pob eiddo sydd ym mherchnogaeth y Cyngor. Bydd y SAC yn gofalu y cedwir cofnod o bob eiddo ym mherchnogaeth y Cyngor, yn cofnodi lleoliad, maint, cynllun, cyfeirnod, manylion prynu, natur y budd, tenantiaethau a ganiatawyd, rhenti sy'n daladwy a'u pwrpas yn unol â Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru).

14.2 *Ni chaiff unrhyw eiddo ei werthu, ei lesio na'i waredu mewn unrhyw ffordd arall heb awdurdod y Cyngor, ynghyd ag unrhyw gydsyniadau eraill sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ac eithrio pan nad yw gwerth unrhyw un darn o eiddo diriaethol, symudadwy yn fwy na £50.*

14.3 Bydd y SAC yn gofalu y cedwir Cofrestr Asedau a Buddsoddiadau addas a manwl-gywir yn gyfredol. Bydd y ffaith fod yr asedau diriaethol a ddangosir yn y Gofrestr yn dal i fodoli yn cael ei gadarnhau o leiaf yn flynyddol, efallai ar yr un pryd ag y cynhelir archwiliad iechyd a diogelwch o asedau.]

15. YSWIRIANT

15.1 Yn dilyn yr asesiad risg blynyddol (yn unol â Rheoliad Ariannol 17), bydd y SAC yn trefnu pob yswiriant ac yn trafod pob hawliad gydag yswirwyr y Cyngor [wedi ymgynghori â'r Clerc].

15.2 [Bydd y Clerc yn rhoi gwybod yn syth i'r SAC am bob risg, eiddo neu gerbydau newydd y mae angen eu hyswirio ac am unrhyw newidiadau sy'n effeithio yswiriannau presennol.]

15.3 Bydd y SAC yn cadw cofnod o bob yswiriant a drefnwyd gan y Cyngor ac o'r eiddo a'r risgiau a warantir ganddo a bydd yn ei adolygu'n flynyddol.

15.4 Bydd y SAC yn cael gwybod am unrhyw golled rhwymedigaeth neu ddifrod neu am unrhyw ddigwyddiad sy'n debyg o arwain at hawliad, a bydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor amdanynt yn y cyfarfod nesaf.

15.5 Cynhwysir holl weithwyr priodol y Cyngor mewn yswiriant gwarantu ffyddlondeb addas fydd yn gwarantu'r perygl uchaf o risg fel y penderfynir hynny gan y Cyngor.

16. ELUSENNAU

16.1 Pan mai'r Cyngor yw unig ymddiriedolydd corff elusennol bydd y Clerc a'r SAC yn gofalu y cedwir cyfrifon ar wahân o'r arian a gedwir mewn ymddiriedolaethau elusennol ac fe wneir adroddiadau ariannol ar wahân ar ba ffurf bynnag sy'n addas, yn unol â chyfraith elusennol a deddfwriaeth, neu yn ôl gofynion y Comisiwn Elusennol. Bydd y Clerc a'r SAC yn trefnu unrhyw archwiliad neu arolygiad annibynnol sy'n ofynnol gan gyfraith elusennol neu unrhyw Ddogfen Lywodraethu.]

17. RHEOLAETH RISG

17.1 Mae'r cyngor yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer rheoli risg. Bydd y Clerc [gyda'r SAC] yn paratoi, i'w cymeradwyo gan y cyngor, ddatganiadau polisi rheolaeth risg ar gyfer holl weithgarwch y cyngor. Caiff datganiadau polisi risg a'r trefniadau rheolaeth risg sy'n deillio ohonynt eu hadolygu o leiaf yn

flynyddol gan y cyngor.

- 17.2 Wrth ystyried unrhyw weithgaredd newydd, bydd y Clerc [gyda'r SAC] yn paratoi drafft asesiad risg gan gynnwys cynigion rheoli risg i'w hystyried a'u mabwysiadu gan y cyngor.

18. ADOLYGU RHEOLIADAU ARIANNOL

- 18.1 Dyletswydd y Cyngor yw adolygu Rheoliadau Ariannol y Cyngor o bryd i'w gilydd. Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau i fonitro newidiadau deddfwriaethol neu mewn arferion priodol a bydd yn rhoi gwybod i'r cyngor am unrhyw angen dilynol i wneud newid i'r rheoliadau ariannol hyn.

Nodiadau i'r Model.

Efallai y bydd dyddiadau neu fisoedd a nodwyd yn cael eu newid yn ôl amgylchiadau lleol.

[] Gellir dileu'r darn hwn os nad yw'n berthnasol.

Pan ddefnyddir y gair "rheolaidd" yn y testun mater i'r Cyngor unigol yw penderfynu ai bob mis, chwarter neu chwe mis y dylai hynny olygu.

Gall y gwerth a roddir yn unrhyw un o'r paragraffau gael ei newid gan y Cyngor a dylai gael ei adolygu'n rheolaidd a'i gadarnhau'n flynyddol gan y Cyngor.

Bydd y rhestr gymeradwy briodol y cyfeirir ati ym mharagraff 11.1 (b) yn rhestr fydd yn cael ei llunio gan y Clerc a'i chymeradwyo gan y Cyngor ond bydd yn seiliedig ar y rhestr a gedwir gan y Cyngor Sir ar gyfer gwaith o'r fath.

Ar gyfer y cyngorau mwy, efallai y bydd y rheoliadau atodol hyn o gymorth.

1. X Bydd system rheolaeth fewnol y cyngor yn cynnwys:
 - a. Penodi Swyddogion Priodol a Swyddog Ariannol Cyfrifol
 - b. Trefniadau cadw llyfrau ac adroddiadau ariannol priodol
 - c. Rheoliadau ariannol gan gynnwys Rheolau Sefydlog a rheolyddion taliadau
 - d. Trefniadau rheolaeth risg
 - e. Rheolyddion cyllidebol
 - f. Rheolyddion incwm
 - g. Rheolyddion arian mân
 - h. Rheolyddion cyflogres
 - i. Rheolyddion cyfalaf ar gyfer rheoli asedau, buddsoddiadau a benthyca
 - j. Cysoniadau banc
 - l. Meysydd eraill a ddaw'n amlwg o dro i dro mewn asesiadau risg.

1. Y Er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd, economi ac effeithiolrwydd, gall y cyngor sefydlu pwyllgorau ar gyfer Cyllid a/neu Archwilio a/neu Craffu o dan gylch perwyl sy'n nodi amcanion y pwyllgor, ei aelodaeth, terfynau ei gyfrifoldebau a swyddogaethau'r

cyngor a ddirprwyir iddo.

1.Z Bydd y cofnodion cyfrifo a bennir gan y SAC yn ddigonol i ddangos trafodiadau'r cyngor ac i alluogi'r SAC i sicrhau bod unrhyw gyfrif incwm a gwariant, datganiad o fantolen neu gofnod o dderbyniadau a thaliadau a gwybodaeth ychwanegol i'w darparu neu wybodaeth rheoli y gofynna'r cyngor amdani o dro i dro yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru).

Bydd y cofnodion cyfrifo a bennir gan y SAC yn cynnwys yn arbennig:

- a. cofnodion o ddydd i ddydd o'r holl symiau o arian a dderbyniwyd ac a wariwyd gan y cyngor a materion y mae'r incwm a'r gwariant neu'r derbyniadau neu'r taliadau yn ymwneud â nhw
- b. cofnod o asedau a rhwymedigaethau'r cyngor; a
- c. ble bynnag y mae hynny'n berthnasol, cofnod o incwm a gwariant y cyngor o ran ceisiadau a wnaed, neu a wneir, am unrhyw gyfraniad, grant neu gymhorthdal.

1. XX Bydd y systemau rheolaeth gyfrifyddol a bennir gan y SAC yn cynnwys:

- a. gweithdrefnau i sicrhau bod trafodiadau ariannol y cyngor yn cael eu cofnodi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac mor gywir ag y bo'n rhesymol bosibl, gweithdrefnau i sicrhau y gellir atal a darganfod anghywirdebau a thwyll a'r gallu i ail-greu unrhyw gofnodion a gollir
- b. nodi dyletswyddau swyddogion sy'n gyfrifol am drafodiadau ariannol a'r ffordd y caiff cyfrifoldebau y swyddogion hynny eu rhannu o ran trafodiadau o bwys
- c. gweithdrefnau i sicrhau nad yw unrhyw symiau anghasgladwy, gan gynnwys unrhyw ddyledion drwg yn cael eu cyflwyno i'r cyngor i gymeradwyo eu dileu ac eithrio gyda chydysyniad y SAC a bod y cymeradwyaethau yn cael eu dangos yn y cofnodion cyfrifo, a
- d. chymau i sicrhau bod risg yn cael ei reoli'n effeithiol.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod cynnwys y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Ni all Un Llais Cymru dderbyn cyfrifoldeb am gamgymeriadau, hepgoriadau a newidiadau i wybodaeth wedi ei chyhoeddi.